

W604.01 MAETHOLION MEWN SLYRI A THAIL

Mae'r maetholion mewn tail a slyri yn amrywiol iawn – yn dibynnu ar y deunydd sych, sut mae'r tail a'r slyri yn cael ei gadw, a sut cafodd yr anifeiliaid eu porthi. I wneud penderfyniadau synhwyrol a chywir am chwalu tail a slyri – ac am chwalu gwrtaitth wedi hynny, mae hi'n bwysig amcangyfrif beth maent yn ei gynnwys.

Gwerthoedd Safonol - mae'r gwerthoedd yn Nhabl 1 yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio cyffredinol ac yn fan cychwyn ardderchog.

Dadansoddiad Labordy - mae casglu sampl a'i anfon i gael ei ddadansoddi yn rhoi asesiad mwy cywir. Mae hi'n hanfodol casglu sampl sydd yn wir gynrychioli'r deunydd (sichhewch fod y storfa slyri wedi ei throï'n dda gan gasglu nifer o samplau a'u rhoi gyda'i gilydd).

Profi ar y fferm - mae offer ar gael i roi asesiad ar amrantiad o N slyri – a gellid defnyddio hydrom asesu'r deunydd sych a'r P a K.

Tabl 1 – Cynnwys maeth nodweddiadol

Tail caled							
		Cyf. Maetholion (Kg/tunnel)			Maetholion ar gael (% cyf. Maetholion)		
	Deunydd sych%	Nitrogen (N)	Ffosffad (P ₂ O ₅)	Potash (K ₂ O)	Nitrogen (N)	Ffosffad (P ₂ O ₅)	Potash (K ₂ O)
Gwartheg	25	6.0	3.5	8.0	Gweler	60	90
Defaid	25	6.0	2.0	3.0	Tabl 2	60	90
Slyri							
		Kg/m ³					
G Llaeth	2%	1.5	0.6	2.0	Gweler Tabl 2	50	90
	6%	3.0	1.2	3.5		50	90
	10%	4.0	2.0	5.0		50	90
G Eidion	2%	1.0	0.6	1.5		50	90
	6%	2.3	1.2	2.7		50	90
	10%	3.5	2.0	3.8		50	90

Deunydd sych

Po dewaf yw'r slyri y mwyaf o faetholion sydd ynddo. Felly, dylid gwneud asesiad da o'r deunydd sydd i'w chwalu a sicrhau fod y rhan sydd i'w samplu wedi ei gymysgu'n dda.

Mae'r diffiniadau bras yn cynnwys:

Uwd tew – slyri yn syth o'r fuwch, wedi ei gymysgu gyda iwrin - tua 10% .

Cawl tew – slyri wedi ei gymysgu gyda dŵr golchi'r parlwr a pheth dŵr glaw - tua 6% ar y lefel uchaf i'w bwmpio

Cawl tenau – slyri mewn storfa sy'n cael dŵr glaw o'r buarth a'r toeau; mor isel â 2% ac yn hawdd i'w bwmpio.

'Dŵr budr' sef dŵr sydd wedi ei ddifwyno gan iwrin, elifiant, llaeth neu deunyddiau glanhau – bydd dŵr c 'separator' neu wal sy'n diferu a chrynodiad eithaf uchel o faeth.

Maeth sydd ar gael

Nid yw'r holl faetholion mewn slyrri/tail ar gael i'r planhigyn oherwydd colledion gan trwytholchi, dŵr ffo neu i'r atmosffer. Mae'r colledion hyn yn dibynnu ar y math o dail, deunydd sych, amser chwalu a'r math o bridd. Nid yw'r P a'r K sydd ar gael yn amrywio llawer – ond mae'r nitrogen sydd ar gael yn amrywio'n arw.

Tabl 2 – Canran o'r cyfanswm nitrogen ar gael i'r cnwd nesaf ar ôl chwalu ar yr wyneb

	Amseru	Hydref		Gaeaf		Gwanwyn	Haf
	Math pridd	Tywodlyd/ bas	Canolig/ trwm	Tywodlyd/ bas	Canolig/ trwm	Pob pridd	Pob pridd
Tail buwch Ffres	25% DS	5	10	10	15	20	Dim data
Hen Dail buwch	25% DS	5	10	10	10	15	Dim data
Slyri gwar.	2% DS	5	20	25	40	50	35
	6% DS	5	15	20	30	35	20
	10% DS	5	10	10	15	20	10
dwr budr	<1% DS	0	40	10	60	80	50

Galw am faetholion – dylai'r maetholion a chwelir gyflenwi yr hyn mae'r cnwd ei angen yn unig a'r hyn sydd ei angen i gynnal indecsau P a K yn sefydlog ar 2.

Tabl 3 – Yr hyn mae'r cnwd yn ei fynnu (kg/ha)

Indecs Pridd	Nitrogen	Indecs Ffosffad (P)			Indecs Potash (K)		
	*	1	2	3	1	2	3
Silwair toriad 1af	120	65	40	20	110	70	30
Silwair 2 nd Doriad	100	25	25	0	100	75	40
Pori	**	40	20	0	30	0	0
India Corn	40	85	60	20	205	170	110

*yn tybio cyflenwad nitrogen canolig i'r pridd

**yn amrywio yn dibynnu ar raddfa'r stoc a lefel cynhyrchiant

Uchafu'r Maetholion a ddefnyddir a thorri gwastraff

- 1) Dylid osgoi amseroedd risg uchel. Mae chwalu yn niwedd yr hydref a dechrau'r gaeaf yn aml yn golygu glwiad uchel – ac o ganlyniad bydd trwytholchiad a dŵr ffo ac mae tymheredd y pridd yn is gan leihau'r maetholion mae'r planhigion yn eu defnyddio. Mae chwalu ar yr wyneb yn yr haf yn debygol o olygu colledion uchel drwy nwy amonia – yn enwedig o ddeunydd gyda lefel uchel o ddeunydd sych.
- 2) Dylid osgoi ardaloedd risg uchel (yn enwedig yn ystod adegau risg uchel!) Dylid osgoi chwalu ar lethrau serth, tir dyfrlawn a daear wedi rhewi.
- 3) Dylid osgoi chwalu trwm – mae chwalu mwy na 35m³/ha (3150 gal/erw) ar un adeg yn debygol o orlwytho'r system, cynyddu'r colledion posib – yn ogystal â niweidio'r dywarchen a lladd pryfed genwair.
- 4) Dylech ond chwalu'r hyn mae'r cnwd ei angen, gwiriwch indecsau'r pridd a chyfrif beth yw'r maetholion mewn slyri.
- 5) Gwiriwch fod y chwalwyr (yn cynnwys rhai contractwyr) wedi eu graddnodi yn gywir ac yn chwalu'n gywir.
- 6) Lluniwch gynllun clir i reoli tail – a'i drafod gydag unrhyw gontractwyr.

RHAGOR O WYBODAETH:

Ffôn: IGER, Grassland Development Centre - 01970 823026, 823058 or 823000

Ebost: gttp.iger@bbsrc.ac.uk, **Gwefan:** <http://www.iger.bbsrc.ac.uk>

Taflen Wybodaeth

IGER GDC Factsheet 603.01 - Pam Defnyddio Chwistrellydd Slyri?

Caiff y Ganolfan Datblygu Tir Glas, sy'n seiliedig yn IGER, ei rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswllt Ffermio.

GDC, Institute of Grassland and Environmental Research / Sefydliad Ymchwil Tir Glas ar Amgylchedd
Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EB - Dr Heather McCalman, Manager - Ffôn: 01970 823026/823058

